Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Meistr 2018

Cwestiynau Cyffredin

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol ar gyfer Ysgoloriaethau Meistr Prifysgol Caerdydd. Os ydych yn gwneud cais am unrhyw ddyfarniad penodol arall, neu ysgoloriaeth bartner, bydd angen i chi edrych ar feini prawf yr ysgoloriaethau hynny - mae'n bosibl y byddant yn wahanol. Mae rhagor o wybodaeth am gyfleoedd eraill i gael arian ar gael ar ein gwefan.

Cwestiynau ynglŷn â'ch cymhwysedd

Ydw i wedi fy nghyfyngu i astudio rhaglenni penodol?

Ydych – dim ond rhaglenni amser llawn a rhan-amser ôl-raddedig a addysgir sy'n arwain at radd meistr sydd wedi'u cynnwys yn rhan o gynllun yr ysgoloriaeth.

Ni chewch hawlio arian ysgoloriaeth ar gyfer Tystysgrifau a Diplomâu Ôl-raddedig, na rhaglenni dysgu o bell. Ni fyddwch yn gymwys chwaith os oes gennych eisoes Dystysgrif neu Ddiploma Ôl-raddedig a'ch bod yn mynd ymlaen i gam Meistr y radd ar hyn o bryd.

Ar wahân i'r MRes yn y Biowyddorau a'r MRes mewn Niwrobioleg Bôn-gelloedd, **nid yw** rhaglenni ymchwil ôl-raddedig, gan gynnwys rhai sy'n arwain at ddyfarnu MPhil, yn gymwys am yr ysgoloriaeth.

Oes rhaid i mi astudio'n amser llawn?

Nac oes – gallwch astudio llawer o'r rhaglenni cymwys naill ai'n amser llawn neu'n rhan-amser. Fodd bynnag, ni chewch hawlio ysgoloriaeth ar gyfer rhaglenni dysgu o bell.

Ydy fy ngwlad wedi'i chynnwys? Ydw i'n gymwys?

Mae pawb a elwir yn fyfyrwyr Cartref neu UE at ddibenion talu ffioedd yn gymwys ar gyfer yr ysgoloriaeth.

Beth yw ystyr 'Cartref' neu 'UE' at ddibenion talu ffioedd*?*

Rhaid i fyfyrwyr fod wedi'u dosbarthu fel rhai **'Cartref' neu 'UE'** at ddibenion talu ffioedd i allu cael eu hystyried ar gyfer yr Ysgoloriaethau. Mae angen i chi gyflwyno cais i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd a chael cynnig i astudio cyn y gellir cadarnhau eich statws ffioedd. Pennir eich statws ffioedd yn unol â'r Rheoliadau Ffioedd. Cewch wybodaeth am ffioedd statws yng Nghymru ar wefan UKCISA.

A gaf i ymgeisio am gyllid arall yn ogystal â'r Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Meistr?

Ni fyddwch yn gymwys i dderbyn yr Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Meistr os ydych chi hefyd yn derbyn cyllid llawn ar gyfer eich ffioedd dysgu drwy unrhyw ysgoloriaethau neu fwrsariaethau eraill. Os ydych chi'n derbyn cyllid yn seiliedig ar fenthyciad fodd bynnag, fel y Benthyciad Ôl-raddedig a ddosberthir gan Cyllid Myfyrwyr Cymru a Lloegr, byddwch yn dal i fod yn gymwys i dderbyn yr Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Meistr.

Cwestiynau ynglŷn â'ch Cais

Sut mae gwneud cais am yr ysgoloriaeth?

Mae'r ddolen i'r ffurflen gais ar gael drwy'r Porth Cyflwyno Cais Ar-lein i bob ymgeisydd sydd wedi'u dosbarthu fel rhai cartref at ddibenion talu ffioedd, ac sydd wedi cyflwyno cais i astudio rhaglen ôl-raddedig a addysgir amser llawn neu ran-amser sy'n arwain at radd meistr. Bydd y ffurflen gais yn aros ar y Porth Cyflwyno Cais Ar-lein tan yr ail ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais am ysgoloriaeth. Os nad yw'r ffurflen gais ar gael, anfonwch ebost at **pgscholarships@caerdydd.ac.uk** er mwyn i ni roi cyngor i chi.

Darllenwch y meini prawf cymhwysedd a'r canllawiau'n ofalus cyn llenwi'r ffurflen gais. Sut mae cael mynediad at y Porth Cyflwyno Cais Ar-lein?

Unwaith y byddwch wedi cyflwyno cais i astudio, fe gewch ebost yn cadarnhau.

Os ydych chi'n newydd i Brifysgol Caerdydd, bydd ebost arall yn dilyn gyda dolen at Borth Ymgeisydd Ar-lein SIMS a'ch enw defnyddiwr. Caiff y cyfrinair ei anfon atoch mewn ebost ar wahân. Gall hyn gymryd hyd at 48 awr ar ôl cyflwyno eich cais.

Os oes gennych chi gyfrif gyda Phrifysgol Caerdydd yn barod e.e. fel myfyriwr cyfredol neu flaenorol, gallwch ddefnyddio'r cyfrif hwnnw i fewngofnodi i SIMS. Yn SIMS, mae'n bosibl y bydd angen i chi newid i'r sgrin 'Eich Cais'.

Oes modd cyflwyno mwy nag un cais am ysgoloriaeth?

Dim ond y cais mwyaf diweddar i chi ei gyflwyno a gaiff ei ystyried ym mhob cylch.

Ni chewch ailgyflwyno cais yn yr ail gylch os ydych chi'n aflwyddiannus yn y cylch cyntaf.

Fodd bynnag fe gewch gyflwyno cais newydd am ysgoloriaeth i'w ystyried yn erbyn rhaglen mewn Ysgol Academaidd wahanol i'r cais aflwyddiannus yn y cylch cyntaf.

Pryd mae'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais am Ysgoloriaeth*?*

Ystyrir ceisiadau hyd at ddau ddyddiad cau: 07 Mawrth 2018 a 04 Gorffennaf 2018

Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn 13.00 (GMT) ar y dyddiad cau. Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau cyntaf tan ar ôl yr ail ddyddiad cau. Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau sy'n cyrraedd ar ôl yr ail ddyddiad cau.

Nodwch fod y ffurflen gais ar gyfer ysgoloriaeth ar gael drwy'r Porth Cyflwyno Cais Ar-lein yn unig, nad oes mynediad iddo tan i chi gyflwyno cais i astudio. Gall gymryd hyd at 48 awr ar ôl cyflwyno cais i gael mynediad at y Porth Cyflwyno Cais Ar-lein.

Beth yw'r dyddiadau pwysig i'r rhai sy'n cyflwyno cais am ysgoloriaeth*?*

Dydd Sul 04 Mawrth 2018	Dylech fod wedi cyflwyno cais i astudio rhaglen ôl-raddedig gymwys erbyn y dyddiad hwn i sicrhau y cewch fynediad at y Porth Cyflwyno Cais Ar-lein ac felly at y ffurflen gais am ysgoloriaeth mewn digon o amser cyn y dyddiad cau cyntaf.

13.00 (GMT) Dydd Mercher 07 Mawrth 2018	Rhaid cyflwyno cais am ysgoloriaeth erbyn y dyddiad hwn os ydych am gael eich ystyried yn y **cylch cyntaf** o geisiadau.
Dydd Sul 01 Gorffennaf	Dylech fod wedi cyflwyno cais i astudio rhaglen ôl-raddedig gymwys erbyn y dyddiad hwn i sicrhau y cewch fynediad at y Porth Cyflwyno Cais Ar-lein ac felly at y ffurflen gais am ysgoloriaeth mewn digon o amser cyn yr ail ddyddiad cau.
13.00 (GMT) Dydd Mercher 04 Gorffennaf 2018	Rhaid cyflwyno cais am ysgoloriaeth erbyn y dyddiad hwn os ydych am gael eich ystyried yn ail **gylch, sef cylch terfynol** y ceisiadau.
17.00 (GMT) Dydd Llun 06 Awst 2018	Rhaid i chi fod wedi derbyn cynnig diamod i astudio erbyn y dyddiad hwn.*
Wythnos ar ôl cael hysbysiad ffurfiol o gynnig ysgoloriaeth	Mae angen derbyn ysgoloriaethau o fewn wythnos i gael hysbysiad ffurfiol drwy ddychwelyd telerau ac amodau'r ysgoloriaeth wedi'u llofnodi. Os ydych eisoes wedi derbyn cynnig i astudio, bydd angen i chi dderbyn y cynnig hwn yn gadarn hefyd. Byddwn yn ailddyrannu ysgoloriaethau na chaiff eu derbyn.

A gaf i wneud cais heb fod wedi cael cynnig lle i astudio?

Cewch, does dim angen i chi fod wedi cael cynnig lle i astudio cyn cwblhau eich cais ond rhaid i chi fod wedi cyflwyno cais i gwrs, ac i'r cais hwnnw gael ei brosesu gan ein tîm derbyn, a all gymryd hyd at **48 awr**. Fodd bynnag, er mwyn bod yn gymwys i dderbyn ysgoloriaeth, bydd yn rhaid i chi fod wedi cael a derbyn cynnig diamod i astudio erbyn 06 Awst 2018. Rhowch wybod i ni os nad ydych yn gallu cael cynnig diamod erbyn y dyddiad cau a nodwyd.

Ni allaf weld y ddolen ymgeisio yn y Porth Cyflwyno Cais SIMS ar-lein.

Mae Porth Cyflwyno Cais SIMS Ar-lein yn defnyddio cyfuniad o ddata ceisiadau a rhaglenni i benderfynu a yw'r ddolen ar gyfer gwneud cais yn cael ei dangos ai peidio. Os ydych chi wedi gwirio eich bod yn gymwys ar gyfer yr ysgoloriaeth, ond yn methu â gweld y ddolen ar gyfer gwneud cais yn y Porth Cyflwyno Cais SIMS ar-lein, cysylltwch â ni drwy ebost yn pgscholarships@caerdydd.ac.uk.

Rhaid i fyfyrwyr cyfredol newid i sgrin 'Eich Cais' yn SIMS.

Pryd y caf wybod a ydw i wedi bod yn llwyddiannus?

Ceisiwn hysbysu ymgeiswyr am ganlyniad eu cais cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad cau dan sylw, ond ddim hwyrach na **17.00 (GMT) dydd Llun, 09 Ebrill 2018** ar gyfer y dyddiad cau cyntaf, a **17.00 (GMT) dydd Llun, 06 Awst 2018** ar gyfer yr ail ddyddiad cau. Byddwn yn anfon yr hysbysiadau i'r cyfeiriadau ebost a ddarparwyd.

Gall ceisiadau aflwyddiannus a gyflwynwyd cyn y dyddiad cau cyntaf gael eu trosglwyddo i'r ail ddyddiad cau. Byddwn yn hysbysu ymgeiswyr am hyn.

Nid yw'r Porth Cyflwyno Cais SIMS ar-lein wedi diweddaru statws fy nghais, ond rwyf i'n gallu gweld dolen at y ffurflen gais o hyd.

Nid SIMS sy'n ymdrin â'r cais ar gyfer ysgoloriaeth, felly ni all y Porth Cyflwyno Cais SIMS ar-lein ddiweddaru statws eich cais am ysgoloriaeth. Mae'r dderbynneb ar gyfer cyflwyno cais yn ddigon i gadarnhau eich bod wedi cyflwyno eich cais. Byddwn yn cysylltu â chi drwy ebost i roi gwybod i chi pan

fydd penderfyniad wedi'i wneud.

Nodwch y gallai eich darparwr ebost osod ein negeseuon ebost yn eich ffolder sothach/sbam neu debyg.

Sut caiff ceisiadau am ysgoloriaeth eu hasesu?

Bydd y paneli dewis ym Mhrifysgol Caerdydd yn ystyried meini prawf pwysig yn eich cais yn ogystal â'ch datganiad ategol wrth asesu'ch ffurflen gais:

i. Rhagoriaeth academaidd: Rydym am weld myfyrwyr yn dangos eu llwyddiannau academaidd yn ogystal ag enghreifftiau eraill o'u datblygiad personol, megis dysgu drwy brofiad gwaith, gwaith gwirfoddol, neu brofiadau dysgu allgyrsiol;
ii. Cyfraniad i gymdeithas: Byddwn yn edrych yn ffafriol ar ymgeiswyr sy'n dangos eu bod yn ymwybodol o sut bydd ennill cymhwyster ym Mhrifysgol Caerdydd yn helpu i gyfrannu at eu cymuned, eu cymdeithas neu eu gwlad;

Mae penderfyniad y panel dewis yn derfynol ac ni fydd modd apelio.

Oes modd i mi gael adborth ar fy nghais?

Yn anffodus, oherwydd y nifer fawr o geisiadau a ddaw i law, ni allwn ddarparu adborth unigol.

Beth yw 'Cynnig Amodol i astudio'?

Mae **'cynnig amodol'** yn golygu bod y Brifysgol wedi gwneud cynnig i chi astudio ar yr amod eich bod yn bodloni amodau penodol. Dyma'r amodau sy'n angenrheidiol yn ôl y tiwtor derbyn er mwyn i chi fodloni gofynion mynediad y cwrs. Os byddwch yn cael cynnig amodol i astudio, yna dylech anfon eich trawsgrifiadau i'r Swyddfa Derbyn Myfyrwyr cyn gynted ag y byddwch yn eu cael. Os bydd y tiwtor derbyn o'r farn eich bod wedi bodloni'r amodau, bydd eich cynnig yn un 'diamod' wedyn.

Beth yw 'Cynnig Diamod i astudio'?

Mae **'cynnig diamod'** yn golygu eich bod wedi bodloni'r holl ofynion academaidd ac anacademaidd ar gyfer cwrs fel y'i pennwyd gan y tiwtor derbyn, ac mae'r Brifysgol yn cynnig lle i chi astudio ar gwrs. Mae'n bosib y bydd angen prawf o gymwysterau ond bydd y Brifysgol yn cysylltu â chi os bydd angen hyn.

Cwestiynau ynglŷn â'ch Ysgoloriaeth

Rwyf i wedi cael ysgoloriaeth! Beth sydd angen i mi ei wneud nesaf?

Os byddwch yn llwyddiannus ac yn cael eich dewis i gael ysgoloriaeth, bydd y Brifysgol yn cysylltu â chi cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad cau dan sylw.

Bydd rhaid i bawb sy'n llwyddiannus dderbyn yr ysgoloriaeth a'i hamodau yn ffurfiol drwy lofnodi telerau ac amodau'r ysgoloriaeth, a anfonir atoch gyda'r hysbysiad am y dyfarniad.

Os na fyddwn yn cael eich cadarnhad ymhen wythnos ar ôl eich hysbysu'n ffurfiol, byddwn yn rhoi'r arian i fyfyriwr arall. Caiff estyniadau eu caniatáu mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.

Efallai fod yr ysgoloriaeth a gynigir i chi yn amodol ar ennill gradd benodol yn eich gradd, a gallai fod yn radd uwch na'r hyn oedd yn ofynnol yn eich cynnig amodol i astudio.

Sut caiff yr ysgoloriaethau eu dyfarnu?

Cyflwynir ysgoloriaethau ar ffurf gostyngiad mewn ffioedd dysgu. Os ydych wedi llwyddo i gael ysgoloriaeth, byddwn yn gwneud y taliadau angenrheidiol tuag at ffioedd dysgu'r Brifysgol ar eich rhan, a byddwn yn rhoi gwybod i chi am hyn. Y rhai sy'n cael yr ysgoloriaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl ffioedd a chostau eraill (gan gynnwys gweddill y ffioedd dysgu, ffioedd llety) yn cael eu talu erbyn y dyddiadau cau priodol.

Beth os nad yw fy ysgoloriaeth yn talu'r ffioedd yn llawn?

Nid yw'r ysgoloriaethau yn talu'r holl ffioedd dysgu. **Rhaid** i'r myfyriwr dalu unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer astudio a ddaw i ran enillwyr yr ysgoloriaeth ac nad ydynt yn dod o dan fanylion yr ysgoloriaeth y maent wedi'i chael.

Mae fy nghwrs yn cynnwys cyfnod mewn gwaith. Sut bydd hyn yn effeithio ar fy ysgoloriaeth?

Gyda rhaglenni amser llawn, dim ond ar gyfer blwyddyn gyntaf eich rhaglen y mae'r ysgoloriaeth ar gael. Os ydych yn astudio rhaglen amser llawn sy'n para dros flwyddyn, ni chewch arian o'r ysgoloriaeth hon neu'r ysgoloriaeth ddilynol ar gyfer y blynyddoedd ychwanegol.

Beth os ydw i'n astudio rhan-amser?

Os ydych chi'n astudio eich rhaglen yn rhan-amser, byddwch yn cael 50% o'r ysgoloriaeth yn y flwyddyn gyntaf a 50% o'r ysgoloriaeth yn yr ail flwyddyn.

Beth os na allaf dderbyn y cynnig i astudio? Oes modd i mi ohirio fy nghynnig?

Gallwch ohirio eich cynnig i astudio yn unol â pholisi'r Brifysgol. Fodd bynnag, ni allwch chi ohirio eich ysgoloriaeth. Byddai'n rhaid i chi gyflwyno cais eto'r flwyddyn ganlynol - yn amodol ar yr ysgoloriaethau fydd ar gael.

Beth yw fy nghyfrifoldebau fel rhywun sy'n cael ysgoloriaeth?

Yn ystod eich cyfnod astudio ac ar ei ôl, mae'n bosib y gofynnir i chi gymryd rhan mewn gweithgareddau hyrwyddo ar ran y Brifysgol. Gall hyn gynnwys derbyniadau a digwyddiadau cymdeithasol, erthyglau tystiolaeth a chyhoeddusrwydd neu hyd yn oed helpu mewn gweithgareddau yn eich mamwlad.

Â phwy y dylwn gysylltu os bydd gennyf unrhyw gwestiynau?

Anfonwch ebost at **pgscholarships@caerdydd.ac.uk** neu ffoniwch +44 (0)29 2087 0084 os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ysgoloriaethau, y broses o gyflwyno cais neu os bydd angen rhagor o arweiniad arnoch.